VICTIM SUPPORT

# TROSEDDAU TREISGAR

Sut gallwn ni'ch helpu chi ar ôl trosedd

victimsupport.org.uk

03

Mae troseddau treisgar yn gallu effeithio ar unrhyw un, ac mae'n gallu bod yn brofiad dychrynllyd a thrawmatig iawn.

Mae pawb yn ymateb yn wahanol i droseddau treisgar, a gallai'ch teimladau newid o un dydd i'r llall. Y peth pwysig ydy sylweddoli y gallech chi gael eich effeithio mewn nifer o wahanol ffyrdd, yn feddyliol ac yn gorfforol.

Rydyn ni yma i'ch helpu chi yn y cyfnod anodd hwn. Gallwch ein galw ni wythnosau, fisoedd neu hyd yn oed flynyddoedd ar ôl trosedd. Rydyn ni wastad yma i wrando ac i helpu.

## Sut gallwn ni helpu

Rydym yn elusen annibynnol sy'n cynnig cymorth cyfrinachol am ddim i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

Does dim rhaid i chi riportio trosedd i gael derbyn cymorth gennym ni. Gallwn ni helpu yn y ffyrdd canlynol:

- Cefnogaeth bersonol gydag unigolyn sydd wedi cael hyfforddiant arbennig, mewn ffordd sy'n gweithio i chi. Siarad yn gyfrinachol, gofyn cwestiynau a chael cyngor a chefnogaeth emosiynol
- Eich rhoi chi mewn cysylltiad â chymorth, gwasanaethau neu gefnogaeth arbenigol gan eraill
- Cyngor a chefnogaeth wrth wneud cais am iawndal neu gymorth ariannol os ydych chi'n gymwys. (Bydd angen i chi adrodd am y drosedd i'r heddlu er mwyn gwneud cais)
- Gwybodaeth a chymorth ymarferol i wneud i chi deimlo a bod yn fwy diogel.

Mewn rhai ardaloedd, gall hyn fod yn gymorth i ddiogelu'ch cartref

- Gwybodaeth ynglŷn ag adrodd i'r heddlu, y system cyfiawnder troseddol a gweithdrefnau'r llysoedd. Os byddwch chi'n dewis adrodd am drosedd, gallwn ni fynd gyda chi a'ch cefnogi chi wrth i chi wneud hynny
- Rydym yn gwybod bod troseddau'n effeithio ar yr holl deulu. Rydym yn cynnig cefnogaeth i bawb yr effeithir yn uniongyrchol arnynt, ac rydym yn helpu rhieni a gofalwyr i gefnogi plant sy'n ymdopi ag effaith trosedd.

## Trais rhywiol, trais domestig a throseddau casineb

Os oes trais rhywiol, trais domestig neu drosedd casineb wedi effeithio arnoch chi, rydym yn cynnig cefnogaeth gan aelodau staff a gwirfoddolwyr profiadol sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol.

## Mae amrywiaeth o bwys ac rydym yn ei werthfawrogi

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi anghenion y cymunedau amrywiol rydym yn eu gwasanaethu. Gallwn ni ddarparu cyfieithwyr a gwybodaeth mewn fformatau gwahanol. Os oes gennych anghenion ychwanegol, rhowch wybod i ni er mwyn i ni allu rhoi'r gefnogaeth iawn yn ei lle.

## Sut i gysylltu

Mae ein manylion cysylltu ar glawr cefn y daflen hon. Ewch i **victimsupport.org.uk** i gael rhagor o wybodaeth ac i ddod o hyd i wasanaethau yn agos atoch chi.

## Ble i fynd i gael cymorth:

Rydym yn elusen **annibynnol** sy'n cynnig cymorth **cyfrinachol am ddim** i bobl y mae troseddau a digwyddiadau trawmatig yn effeithio arnynt.

I gael gwybodaeth a chymorth, cysylltwch â ni drwy:

- ffonio: Supportline **08 08 16 89 111**
- defnyddio ein gwasanaeth sgwrsio byw 24/7: **victimsupport.org.uk/live-chat**
- defnyddio BSL: **victimsupport.org.uk/bsl**
- Ar-lein: **victimsupport.org.uk**

I gael gwybod sut gallwch chi'n helpu ni, ewch i **victimsupport.org.uk/get-involved**

**@VictimSupport**

**VictimSupport**

**victimsupport_uk**

**Linkedin.com/company/victim-support**

Cyhoeddwyd gan Victim Support
Llywydd EHB Y Dywysoges Frenhinol

Victim Support, Llawr Gwaelod, Adeilad 3, Parc Busnes Dwyreiniol, Lôn Wern Fawr, Pentref Llaneirwg, Caerdydd CF3 5EA
Ffôn: 020 7268 0200

Cofrestriad elusen: 298028 Rhif cwmni: 2158780
Cofrestrwyd yn Lloegr. Cyfyngedig trwy warant.
Swyddfa gofrestredig fel uchod.

Ebrill 2024 | P2714 © 2024 Victim Support